

BLWYDDYN NEWYDD DDA

Adnodau agoriadol:

'Deuwch, addolwn, ac ymgrymwn: gostyngwn ar ein gliniau gerbron yr Arglwydd ein Gwneuthurwr. Canys Efe yw ein Duw ni.'

'Dyfod y mae'r awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo'r gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwirionedd.'

Gweddiwn:

Diolchwn iti, ein Tad, am gyfarwyddyd dy Air a chymorth yr Ysbryd Glân i ymwybod o'th bresenoldeb, ac i'th addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Yn dy drugaredd, ein Tad, tywys ni atat dy hun a derbyn ni fel ag yr ydym yn enw dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Emyn 61: *O Dduw, ein nerth mewn oesoedd gynt*

Llefarydd:

'Blwyddyn Newydd Dda' ichi i gyd, neu o gyfieithu'r fersiwn Saesneg, 'Blwyddyn Newydd Hapus'. Fel Cymry, mae'n well gan nifer ohonom yr arfer Gymraeg na'r Saesneg, a'r prif reswm am hynny yw fod gormod o 'hap' yn y gair 'hapus'! Gair arall sy'n gyfystyr â 'hap' yw 'lwc', ac y mae miloedd o bobl yn trio eu lwc yn wythnosol ar y loteri a phethau cyffelyb. Y mae i'r gair 'da' ystyr mwy moesol ac ysbrydol, a daw'r darlun o Iesu'r *'Bugail Da'* i'r meddwl ar unwaith. Wrth wynebu blwyddyn newydd, ni wyddom beth a ddaw i'n rhan, ond beth bynnag a ddigwydd, gobeithiwn y gallwn ategu'r cwpled,

*Cans gwn er f'anwybod
mai da yw Duw.*

Gadewch inni wrando ar ddarlleniad o'r Beibl, sef y drydedd salm ar hugain, a'r darlun o Iesu'r Bugail Da.

Darlleniad: Salm 23
Ioan 10: 11–16

Cyd-weddio Gweddî'r Arglwydd.

Emyn 68: *Cydunwn oll o galon rwydd*

Llefarydd:

Mae gennym ddau wyneb, ac yr ydym yn eu defnyddio'n gyson. Gydag un wyneb dangoswn ein tristwch a chyda'r wyneb arall ein llawenydd. Rydym newydd ddathlu dros wyl y Nadolig geni Mab Duw yn faban bach. Y maen wyl o lawenydd mawr, ond ar ddechrau blwyddyn newydd y maen anodd parhau i fod yn llawen wrth weld a chlywed newyddion trist ein hoes yn ddyddiol ar y teledu. Mae miloedd ar filoedd o blant bach mewn nifer o wledydd yn dioddef creulondeb a thlodi enbyd. Yn yr un modd, mae nifer fawr o bobl ifanc yn amddifad o gysgod cartref ac yn crwydro o un wlad i'r llall, ac y mae mamau a thadau a neiniau a theidiau yn pryderu'n fawr am eu teuluoedd ac yn ymollwng i anobaith llwyr. Ymhellach, nid ym mhellafoedd ein byd y mae dioddefiadau o'r fath yn digwydd ond yn Ewrop ac yn ein gwlad ninnau hefyd. Ni all neb ohonom osgoi sefyllfaoedd trist yng ngwledydd ein byd, ac eto maen well gan lawer ohonom anghofio'r byd a'i loes a chondemnio ein gwleidyddion am y sefyllfa. Fel ninnau, nid ydynt hwythau chwaith heb eu beiau. Yn wir, mae nifer o arweinwyr gwleidyddol yn mynnu cau eu llygaid i sefyllfa druenus ein byd, a gwnânt hynny drwy wasgu ar y tlawd a'r bregus yn ein cymdeithas. Yn ogystal â hyn, maent yn pentyrru mwy a mwy o arfau dieflig a all ddinistrio ein byd.

Rydym newydd ddathlu gŵyl y Nadolig gyda'i newyddion da o lawenydd mawr am eni Mab Duw i'n byd, ond fel y canai Eifion Wyn ddechrau'r ganrif ddiwethaf:

*Heddiw, wedi gŵyl a defod
Ugain canrif namyn un
Os yw Duw yn caru dynion
Nid yw dyn yn caru dyn.*

Mae hyn yn ymddangos yn fwy gwir heddiw nag erioed, ac y mae'n well gan lywodraethau ein byd ymddiried yn ffordd trais a thywallt gwaed na cheisio cyfiawnder a chymod drwy drafodaeth a phwyll. Ond nid ydym heb obaith, a ffynhonnell ein gobaith yw cariad anorchfygol Duw yn Iesu Grist, ac yn ysbryd ei gariad y gweddiwn,

*Efengyl tangnefedd, O rhed dros y byd,
a deled y bobloedd i'th lewyrch i gyd;
na foed neb heb wybod am gariad y groes,
a brodyr i'w gilydd fo dynion pob oes.*

Darlleniad: Mathew 5: 38–48

Emyn 252: *Rho inni weledigaeth ar dy frenhiniaeth di*

Gweddiwn:

Ar ddechrau blwyddyn, cynorthwya ni i godi'n golygon atat yn dy nefoedd i'th gyfarch fel ein Tad nefol, ac i gyfrif ein dyddiau fel y dygom ein calonnau i ddoethineb. Mae dy Air yn ein cymell i'th geisio tra bo cyfle gennym, ac i gredu dy fod yn fwy na pharod i wrando ein cri. O Dad, yn enw dy Fab Iesu Grist ac ar bwys yr hyn a wnaeth drosom ar Galfaria, trugarha wrthym a derbyn ni fel ag yr ydym.

Wrth ymgrymu ger dy fron mewn gweddi, cynorthwya ni i sylweddoli pa mor ddibynnol arnat ti rydym am ein popeth – am ein creadigaeth, ein cynhaliaeth, ein cysur a'n gwardigaeth. Er i ni dy anghofio a'th dristáu lawer gwaith, ni fwriaist ni ymaith oddi ger dy fron. Yn dy drugaredd, caniateaist i ni alw ar dy enw yn oriau ein cyfyngder. Yn wir, ein Tad, pan giliasom oddi wrthyt, fe'n gelwaist yn ôl, a phan ddaethom yn ôl, ymgeleddaist ein henaid â'th diriondeb. Nid yn ôl ein pechodau y gwnaethost â ni, ac nid yn ôl ein hanwireddau y telaist i ni, ac fe wyddom hyn, ein Tad, drwy dy Fab, ein Gwardwr Iesu Grist a gymerodd ein pechodau ni yn ei gorff ar y croesbren. Dwysâ ni ag ysbryd edifeirwch fel y bydd ein geiriau yn gywir ger dy fron, ac arwain ni i gofleidio dy gariad – y cariad mwyaf rhyfedd fu erioed.

*Fe'n carodd, do, yn annwyl iawn,
O carwn ninnau ef
gan gredu yn rhinweddau'r gwaed
a gweithio gwaith y nef.*

Yn ysbryd dy gariad, erfyniwn arnat, O Arglwydd, i barhau i gymryd y byd eang o dan dy adain gysgodol. Agor galonnau arweinwyr ein byd i geisio dy ewyllys fel byddont yn cerdded ffordd brawdgarwch a thangnefedd. Tywys hwy i gefnu ar bopeth sy'n diraddio urddas dyn ac yn sarhau sancteiddrwydd dy gariad.

Diolchwn, ein Tad, am bawb sy'n gwneud daioni yn wyneb pob gwrthwynebiad a chasineb. Cadw hwy rhag pob drwg, a chrea ynom oll galon bur yn llawn daioni a thangnefedd. Gweddiwn ar ran ein gilydd, ein teuluoedd, ein heglwys a'n cymdeithas, ac yn arbennig y rhai sy'n dioddef afiechyd a gwendid henaint. Gwarchod hwy dan adain dy gariad, a derbyn ni oll fel ag yr ydym, oherwydd yr ydym yn gofyn hyn yn enw ein Gwardwr Iesu Grist. Amen.

Emyn 336: *Iesu, ti yw ffynnon bywyd*

Llefarydd:

Os cawn ein hunain ar dro yn isel ein hysbryd ac yn wynepdrist, y mae'n bwysig cofio fod gennym hefyd wyneb llawen i'w ddangos i'r byd, neu fel y dywed Paul mor ardderchog, '*Yr ydym yn gorfoleddu mewn gorthrymderau.*' Ond sut y mae hyn yn bosibl? Yr unig ateb synhwyrol yw cariad achubol Duw tuag atom yn Iesu Grist. Yn ein gwendid a'n diymadferthedd, rydym yn gorfoleddu yn Nuw oherwydd mai ganddo ef y mae'r gair olaf, a'i fod yn sbarduno miloedd o bobl ein byd i wneud daioni, i sefyll dros gyfiawnder ac i weithredu ffordd cariad. Y mae gan Tudor Davies emyn yn cynnwys y llinell, '*Rho ynom dy dosturi di.*' Onid dyma yn wir yw gwyrth cariad Duw? Y mae'n abl i greu o'n mewn y sensitifrwydd i deimlo poen ein gilydd a phoen pobl sydd mewn argyfwng mawr, a mwy na hynny, i gyfieithu ein teimladau a'n consyrn am eraill yn gymwynasau hael a da. Yn wir, beth arall y gallwn ei wneud wrth gofio'r hyn a wnaeth Duw drosom yn Iesu Grist? Tynnwn ein sgwrs i ben gyda dyfyniad gan y Crynwr George Fox, '*Cerdda'n llawen drwy'r byd gan ymateb i'r hyn sydd o Dduw ym mhawb.*' Blwyddyn Newydd Dda ichi i gyd.

Emyn 256: *Doed, O Dduw, O doed dy deyrnas*

Y Fendith:

Gwêl yn dda, ein Tad nefol, i'n cynnal a'n cadw yn ystod y flwyddyn newydd hon, a chryfha ein ffydd ynot fel na fyddwn byth yn amheus o'th gariad a'th ras tuag atom yn Iesu Grist. Estyn dy law warchodol drosom, a bydded i ras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fod gyda ni hyd byth. Amen.